**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 28 Chwefror 2022 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | E T Kirchner |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D W Helliwell, L R Jones a/ac C Richards

---

**39 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**40 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

**41 Comisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe.**

Cyflwynodd Joanne Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe (CGTA).

Roedd yr adroddiad yn amlinellu manylion cefndir a'r cynnydd a wnaed gan CGTA ac yn tynnu sylw at waith y Tîm Hwyluso a oedd wedi bod yn gwneud y gorau o allu'r Comisiynwyr Cymunedol i gymryd rhan yn y Comisiwn Gwirionedd Tlodi gan ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar drawma.

Ychwanegwyd bod y Tîm Hwyluso bellach yn gweithio gyda grŵp o ddeuddeg Comisiynydd Cymunedol a oedd wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ar-lein i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth wrth ddechrau rhannu eu straeon. Mae'r grŵp yn

amrywiol o ran oedran, ethnigrwydd, cefndir diwylliannol, profiadau o dlodi a daearyddiaeth yn Abertawe.

Yn ogystal, roedd y themâu sy'n dod i'r amlwg y gallai'r Comisiwn ganolbwyntio arnynt yn cynnwys: Iechyd Meddwl, Tai a Digartrefedd, Stigma, Cyfiawnder Teuluol, Plismona, cysondeb ymagweddau a chyngor ac arweiniad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, Addysg, dosbarth a mudoledd cymdeithasol, cyfrifoldebau gofalu, tlodi gwledig a chudd. Er nad oedd y canlyniadau ar gyfer CGTA yn hysbys ar hyn o bryd, roedd yr hyn a ddysgwyd gan Rwydwaith y Comisiwn Gwirionedd Tlodi yn nodi y gallai canlyniadau ddigwydd ar nifer o lefelau, gan gynnwys unigolion, sefydliadau, polisi a chymdeithas ehangach.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Dulliau comisiynwyr o adrodd/ddarparu adborth;
- Pwysigrwydd cynnwys stigma fel thema sy'n dod i'r amlwg gan ei fod yn fater enfawr;
- Adolygu sut mae pobl yn cael gwybod am Gomisiynwyr a chymryd rhan fel Comisiynwyr a siarad â hwy fel rhan o'r broses;
- Yr angen hanfodol i Gomisiynwyr Cymunedol gael y profiad priodol;
- Y camau nesaf wrth nodi'r meysydd blaenoriaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad a gofynnodd i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd.

**42 Diweddariad ar Bolisi Tyfu Bwyd Cymunedol.**

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth a Pholisi ddiweddariad 'er gwybodaeth' ar y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol.

Amlinellwyd bod Polisi Bwyd Cymunedol drafft wedi'i ddatblygu gan y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi (PDP) yn 2020. Fe'i llywiwyd gan adolygiad o bolisïau tebyg ledled Cymru, yn enwedig y Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol a fabwysiadwyd gan Gyngor Sir Fynwy. Cafodd y polisi drafft ei lywio hefyd gan weithdy ar gyfer PDP gydag arbenigwyr tyfu cymunedol o'r trydydd sector ar draws Abertawe a thrafodaethau dilynol â'r PDP.

Amlinellwyd nodau'r Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol fel a ganlyn: -

- Sicrhau bod tir addas a thir a danddefnyddir sydd dan ei feddiant ar gael ar gyfer tyfu bwyd cymunedol
- Hyrwyddo cyfleoedd i unigolion a grwpiau dyfu bwyd mewn cymunedau lleol er budd cymunedol a chymdeithasol,
- Gweithio gyda'i bartneriaid a'r trydydd sector i gefnogi tyfu bwyd cymunedol,
- Sicrhau bod gweithgareddau tyfu bwyd cymunedol ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn cefnogi ac o fudd i'r rheini sydd fwyaf agored i dlodi bwyd,
- Cefnogi datblygiad cadernid bwyd lleol a mynd i'r afael â thlodi bwyd.

Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai gweithredu Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol yn gofyn am adnoddau i hyrwyddo, gweithredu a monitro'r polisi. Darparwyd enghreifftiau o'r gefnogaeth bosib sydd ei hangen.

Ychwanegwyd bod y gwaith sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o roi Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol ar waith yn torri ar draws nifer o wasanaethau a thimau'r cyngor. Ar hyn o bryd nid oedd unrhyw adnoddau penodol i gefnogi'r gwaith o roi'r polisi hwn ar waith. Felly, argymhellwyd y dylid sefydlu Gweithgor o Swyddogion ac Aelodau i archwilio sut y gellid rhoi'r Polisi ar waith o fewn yr adnoddau presennol a/neu a fyddai angen adnoddau ychwanegol i'w roi ar waith

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Siom ynghylch nifer y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn symud ymlaen;
- Cysylltu â grwpiau gwirfoddol ledled Abertawe;
- Defnyddio cyllidebau ar gyfer busnesau newydd;
- Manteision maethol, iechyd ac amgylcheddol cyflwyno'r polisi;
- Sicrhau bod y bobl sy'n derbyn bwyd ei angen mewn gwirionedd;
- Meddwl 'y tu allan i'r bocs' i ddatblygu'r polisi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad ac ychwanegodd y byddai cynnydd pellach yn y Flwyddyn Ddinesig nesaf.

**Penderfynwyd:** -

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Sefydlu Gweithgor o Gynghorwyr/Swyddogion i ddatblygu'r Polisi.

## 43 Tegwch mewn Polisi Iechyd Gwyrdd. (Llafar)

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth a Pholisi ddiweddariad llafar ynghylch cynnydd.

Ychwanegodd fod angen mwy o eglurder gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Gyfraith er mwyn symud materion yn eu blaenau.

Cynigiwyd sefydlu Gweithgor i ddatblygu'r trafodaethau Polisi.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf;
2) Sefydlu Gweithgor i ddatblygu'r trafodaethau Polisi.

## 44 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith diweddaredig ar gyfer 2021-2022.

Ychwanegodd fod y Polisi Credyd Fforddiadwy wedi cael ei dderbyn a'i fabwysiadu gan y Cabinet. Diolchodd i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am eu gwaith ar ddatblygu'r Polisi.

Yn ogystal, nododd y byddai Adroddiad y Pwyllgor Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Nododd hefyd, pe bai popeth yn llwyddiannus, y byddai diweddariad i'r Polisi Adennill Dyledion Personol hefyd yn cael ei ddarparu.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.05 pm

**Cadeirydd**